Duw Cyfeillgarwch

Adnodau agoriadol:

"Yr ydych chwi'n gyfeillion i mi
os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n
ei orchymyn ichwi.
Nid wyf mwyach yn eich galw'n weision,
oherwydd nid yw'r gwas
yn gwybod beth y mae ei feistr
yn ei wneud.
Yr wyf yn eich galw yn gyfeillion,
oherwydd yr wyf wedi gwneud
yn hysbys i chwi bob peth
a glywais gan fy nhad." *Ioan 15: 14 – 16*

" 'Rhoes Abraham ei ffydd yn Nuw,
ac fe'i cyfrifwyd iddo'n gyfiawnder,'
a galwyd ef yn gyfaill Duw." *Iago 2: 23*

Geiriau agoriadol:

Y mae Iesu yn ein gwahodd i berthynas o gyfeillgarwch ag ef, ond y mae i'r berthynas ei hamodau yn ogystal â'i breintiau. Y breintiau yw cael ein galw'n gyfeillion Iesu a chael rhannu ym meddwl a bwriad Duw. Yr amodau yw ein bod yn caru ein gilydd ac yn ufuddhau i orchmynion Iesu.

Ystyriwch yn ddiolchgar wahoddiad Iesu i fod yn gyfaill iddo.....
Dychmygwch Iesu yn eich cyfarch,

"Yr ydych chwi'n gyfeillion i mi,"
a gofynnwch i Dduw eich helpu i ymateb iddo yn llwyr ac yn llawen.....

Gweddi agoriadol:

Rhown ddiolch i Dduw am ein cyfeillion.....

Arglwydd, diolchwn i ti am y cyfeillion a roddaist i ni
ac am bob perthynas o gariad ac ymddiriedaeth
sydd rhyngom.
Diolchwn am y rhai sy'n gwybod y gorau a'r gwaethaf
amdanom ac yn ein caru trwy'r cyfan.
Diolchwn am y rhai sydd bob amser yn barod
i rannu â ni eu cydymdeimlad a'u cefnogaeth.
Diolchwn am y rhai y medrwn chwerthin a wylo
yn eu cwmni.
Diolchwn am y rhai sydd i ni yn gyfryngau
dy gyfeillgarwch dwyfol dy hun.

Gweddïwn dros gyfeillion Crist ymhob man a thros y rhai
sy'n unig a heb gyfeillion.....
Arglwydd, clyw ein hymbiliau
ar ran dy eglwys fyd-eang, cymdeithas dy
gyfeillion di, o bob cenedl, hil ac iaith;
ar ran y rhai sy'n dioddef gwawd a gwrthwynebiad
oherwydd eu ffyddlondeb i ti;
ar ran y rhai a fu unwaith yn gyfeillion iti,
ond sydd bellach wedi dy anghofio;
ar ran y rhai na chawsant erioed gyfle i'th adnabod;
ar ran y rhai sy'n unig, yn amddifad
ac yn ddigyfaill. Amen.

Emyn: 345 Caneuon Ffydd

Gweddi:

Arglwydd,
mae'r bocs siocled yn agored.
Y fath ddewis,
y rhai â'r canol meddal
a'r rhai â'r canol caled.
Y rhai crwn
a'r rhai sgwâr,
y rhai siâp triongl

a'r rhai petryal.
Y fath ddewis!
Y rhai sy'n mynd y tro cyntaf
a'r rhai sy'n cael eu gadael
ar ôl.
A'r unig un sy'n weddill
yn y bocs!

Pan mae 'na ddigon,
anodd ydi plesio wedyn.
Ac o'r holl ddewis
oedd yna,
fe ddewisodd dy Fab
y deuddeg.
Dewis da?
Ond doedd o
ddim y dewis
amlwg.
Efallai nad nhw
oedd y gorau
i ddechrau
anturiaeth
fyddai'n troi'r
byd wyneb i waered.
Ond fe welaist
werth ymhob un,
y potensial
i wireddu,
a chyflawni
dy bwrpas mawr.
Arglwydd,
nid ni sy'n
dewis dy ddilyn di.
Ymateb i'th
alwad wnawn ni.
Ti sy'n ein cymell

i greu perthynas.
Rwyt ti'n gweld
rhywbeth arbennig
ymhob un ohonom.
A'r hyn sy'n calonogi
ydi nad oes neb yn cael ei adael allan.
Fydd yna ddim siocled ar ôl yn y bocs.
Neb eisiau hwn.
Nid felly mae hi yn dy deyrnas di.
Mae pawb yn cael ei alw.
Cyn i chwi wybod fod yna ddewis
i'w wneud,
mae Iesu wedi gweithredu
a chymryd y cam cyntaf. Amen.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Emyn: 375 Caneuon Ffydd.

Anerchiad:

Mae gan Emrys ap Iwan bregeth o dan y pennawd "Cyfeillion Iesu Grist." Dyma'r tri phennawd:
Achos y Cyfeillgarwch
Amod y Cyfeillgarwch
Arwydd y Cyfeillgarwch.

(i)Achos y Cyfeillgarwch (adnod 13) Cariad Crist – y cariad sy'n rhoi ohono'i hun hyd farwolaeth er mwyn y rhai a gerir. Sôn am faint y cariad a wna'r adnod hon fel y gwna, 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab....' (3: 16). Y mae adnodau sy'n sôn am y math o gariad, megis, 'Gwelwch pa fath gariad y mae'r Tad wedi ei ddangos tuag atom.....' (1 Ioan 3: 1). O ran ei fath y mae'n ddihafal, ac o ran ei faint yn ddifesur. Dyma gariad digon mawr i droi gelynion yn gyfeillion.

(ii) Amod y Cyfeillgarwch (adnod 14) Cadw gorchmynion Iesu. Y mae Iesu o'i gariad yn cynnig ei gyfeillgarwch i bawb, ond y mae dyn yn

rhydd i'w wrthod. Er mwyn aros o fewn cylch y cyfeillgarwch dwyfol y mae'n rhaid ymateb trwy ei garu ef a chadw ei orchmynion. 'Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni' *1 Ioan 4: 19.*

(iii) Arwydd y Cyfeillgarwch (adnod 15) Y mae Iesu'n hysbysu i'w gyfeillion y pethau a glywodd ef gan ei Dad, ac yn rhannu pob cyfrinach â hwy. Dywed wrth y disgyblion nad yw mwyach yn eu galw'n weision (h.y., y caethweision) ond yn gyfeillion. Rhaid i ni gofio fod i berson gael ei alw'n was i Dduw yn anrhydedd fawr, nid yn unig yn yr Hen Destament ond yn y Testament Newydd hefyd. Ystyriai Paul a Iago, er enghraifft, hi'n anrhydedd i fod yn weision i Dduw ac i Grist (Titus 1: 1 ac Iago 1: 1). Braint yn eu golwg oedd ceisio ufuddhau i ofynion Duw yn Iesu Grist. Disgwylir i'r disgybl roi ufudd-dod, ond fel cyfaill y mae'n mwynhau ymddiriedaeth ei Feistr ac yn rhannu ei fywyd hefyd.

Dywed Iesu ymhellach fod y safle freiniol hon yn eiddo iddynt fel disgyblion, nid oherwydd iddynt hwy ei ddewis ef ond am iddo ef eu dewis hwy. Cyfyd cwestiwn etholedigaeth yma – cwestiwn sydd wedi poeni dynion ar hyd yr oesau. Y mae Duw yn galw, yn dewis, yn ethol ond bob amser i waith. Ynghlwm wrth bob braint y mae dyletswydd, ac os anwybyddir y ddyletswydd, collir y fraint. Dewisodd Iesu'r disgyblion i'w hanfon allan i ddwyn ffrwyth.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Gweddi:

O Dduw ein Tad, yr hyn sy'n rhyfeddol yw dy fod yn gallu caru pobl fel ni. I ddweud y gwir nid ydym yn haeddu cael ein caru. Weithiau, byddwn yn edrych ar ddrych ein heneidiau a'r pryd hwnnw byddwn yn teimlo'n siomedig iawn. Mae'r ddelwedd a welwn wedi'i staenio â balchder, hunanoldeb, atgasedd a barusrwydd. Mae yna gymaint ohonom yn rhy barod i iselhau ein hunain ac eraill.

Ond y rhyfeddod! Mae gennyt ti feddwl y byd ohonom. Rwyt ti wedi mynd cyn belled â marw drosom ar y groes. Os wyt ti'n medru'n derbyn ni heb amodau, gwna ni'n fwy parod i dderbyn ein cyd-ddynion. Helpa ni i garu'n hunain a charu eraill. Helpa ni hefyd i'th garu di. Amen.

Stori:

Beth y mae'r stori hon yn ei ddweud wrthyn ni am gyfeillgarwch?

Cyhoeddodd y Parchedig Daniel Matthews y byddai'n ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd wedi treulio'r rhan helaethaf o'i weinidogaeth yn Eglwys y Drindod, Efrog Newydd, a phan glywodd y gynulleidfa'r newyddion roedden nhw'n drist iawn. Y bore hwnnw ym mhorth yr eglwys yr un oedd cwestiwn pob un o'r aelodau,

"Beth am i chi aros am flwyddyn neu ddwy eto?"

"Pam na wnewch chi ddod yn weinidog rhan-amser i ni?"

oedd cwestiwn un arall.

Roedd ambell un o'r gynulleidfa yn fwy hy', "Dyn ifanc ydych chi, mae gennych flynyddoedd maith i fynd eto. Arhoswch yn weinidog arnon ni am bum mlynedd eto!"

"Na, rydw i wedi dod i benderfyniad," meddai'r gweinidog. "Mae yna rai pethau sy'n barhaol, fel y ddau dŵr yma o'n blaenau," meddai gan bwyntio at ddau dŵr y Ganolfan Byd Masnach, "ond mae yna bethau eraill sy'n mynd a dod."

Roedd y tyrau hyn yn sefyll yn gadarn ryw 100 llath yn unig o ddrws yr eglwys.

Aeth pawb eu ffyrdd eu hunain ac aeth y gweinidog yn ôl i mewn i'r eglwys i hel meddyliau. Tybed a oedd o'n gwneud y peth iawn yn ymddeol?

Ymhen deuddydd, 11 Medi 2001, roedd y tyrau wedi'u dinistrio'n llwyr gan ddwy awyren a oedd wedi'u herwgipio gan derfysgwyr! Lladdwyd 2,819 o bobl yn y difrod, ond yn rhyfedd iawn ni wnaed niwed o gwbl i Eglwys y Drindod, dim ond bod ychydig o lwch y tyrau yng ngardd yr Eglwys. Yn ystod yr wythnosau canlynol daeth yr Eglwys yn fangre i bobl o bob rhan o'r byd. Dyma'r unig lecyn diogel yng nghanol y sbwriel a'r llanast. Bu aelodau'r eglwys a'r gweinidog yn brysur ryfeddol yn ystod y dyddiau'n dilyn y gyflafan. Byddai rhai pobl yn troi i mewn i'r eglwys i weddïo'n dawel, eraill yn dod i chwilio am gyngor ac i ofyn cwestiynau anodd a dyrys.

"Mi gefais i un wraig heddiw, oedd wedi colli mab yn y dinistr, yn gofyn ble roedd Duw y diwrnod hwnnw. Ac roedd hi'n mynnu cael ateb gen i," meddai'r gweinidog.

Weithiau byddai pobl oedd wedi colli anwyliaid yn dod heibio ac yn gofyn 'r gweinidog eu dysgu i weddïo ac i ddarllen y Beibl.

Roedd aelodau'r eglwys yn gweithio'n ddygn hefyd. Byddai'r eglwys ar agor ddydd a nos i geisio rhoi help i bob un oedd yn galw. Roedd byrddau o wahanol nwyddau ar gael. Roedd rhai byrddau yn llawn blancedi, eraill â phob math o fwydydd a diodydd arnynt, a'r lleill â dilladau ac esgidiau. Roedd yr eglwys yn brysur fel cwch gwenyn a phobl yn mynd a dod, ddydd a nos. Yn ystod oriau'r hwyr byddai rhai o'r dynion tân a'r heddlu yn dod i mewn i'r eglwys i gael pryd o fwyd ac awr o gwsg cyn ailddechrau ar eu tasgau.

Ond yr hyn a gododd calon y gweinidog oedd bod llawer o'r bobl oedd wedi cael eu hachub o'r tyrau yn barod i weithio'n galed dros deuluoedd y rhai oedd wedi colli eu bywydau. Doedd rhai ohonynt heb weddïo na darllen y Beibl ers dyddiau ysgol ond bellach roedden nhw'n barod i ofyn am gyngor gan y gweinidog ac aelodau'r eglwys. Daeth llawer ohonyn nhw'n Samariaid trugarog ac yn ddilynwyr i Iesu Grist. "Efallai," meddai'r gweinidog, "na cha i amser i ymddeol wedi'r cwbl!"

Cwestiynau i'w trafod:

Sut fyddech chi'n diffinio beth yw gwir ffrind? Ai cyfaill mewn angen yw gwir ffrind?

Clywsom lawer yn dweud fod ffrind da yn llawer gwell nag aelodau o'r teulu. Ydych chi'n credu fod hyn yn wir? Beth yw nodweddion ffrind da?

Ydio'n wir dweud mai Duw sy'n ein galw ni, yn y lle cyntaf, a ninnau'n ymateb i'r galw? Beth yn union mae hyn yn ei olygu?

Pan mae Duw yn galw ac yn dewis, mae bob amser yn galw i waith? Ynghlwm wrth bob braint y mae dyletswydd. Beth sy'n digwydd os anwybyddir y ddyletswydd?

Beth yw eich barn chi am etholedigaeth?

Emyn: 608 Caneuon Ffydd.

Myfyrdod:

Gelwir 'cariad brawdol' wrth yr enw hwn, nid am mai at frodyr y mae'n ei ddangos, ond am mai rhwng brodyr y mae'n ei fagu. At y rhai nesaf atom y teimlwn ni ef gyntaf. Yn y teulu, yn yr ysgol, yn y gweithdy, yn y gymdogaeth, y deffry'r anian hon; ond wedi unwaith ei deffro, hi ddylai gerdded i bob man. Nod rhagor y cariad y mae'r Efengyl yn ei gymell arnom yw cymhwyso'r cariad a ddysgwyd mewn cylch cyfyng at yr estron a'r dieithr a'r pell.

"Porthaf bobl o bob parthau, - a byddaf
Yn porthi nesaf perthynasau."

Dyna gamp Cristionogaeth.

Ond sut y gallwn deimlo'n gynnes at bawb fel ei gilydd? Yr ateb ydyw nad mater o deimlad yw'r cariad yr ydym yn sôn amdano, ond mater o egwyddor..... Ni ellwch deimlo'r un cynhesrwydd at bawb; eithr chwi ellwch fod yn deg tuag at bawb, a dymuno a gwneuthur eich gorau iddynt er eu mwyn.

A dyna sy'n cyfrif am fod blodau'r cariad yma mor gyffredin, a'i ffrwyth gorau fo mor brin; y mae Rhagluniaeth wedi britho'r ddaear â phethau â thuedd ynddynt i fagu cariad brawdol ac wedi rhoi rhyw gymaint o'i hadau ef ym mhob calon; ond rhaid wrth ras, a gras mawr, i'w berffeithio ef. Y mae cariad brawdol mewn cymdeithas wrth-naturiaeth, fel y mae'r ymenyn yn y llaeth, yn llechu mewn peli bychain, cyn y galler casglu'r ymenyn ynghyd. Yn wir fe ddywedodd brawd mewn cwr arall o'r wlad, fod digon o gariad brawdol yn yr eglwys fach y perthynai ef iddi, ond mai cariad brawdol yn barselydd ydoedd. Eisiau chwalu'r parselydd sydd.....

Meddyliau Puleston: J. Puleston Jones.

Emyn: 864 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

Arglwydd, gwna ni'n gyfryngau dy gariad
fel y cânt wybod llawenydd dy gyfeillgarwch. Amen.